Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Panel Craffu**

**Ymarfer Samplu Dip**

# Adolygiad o Achosion Trais yn erbyn Menywod a Merched

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

Ebrill 2022

## Cynnwys

## 1. Trosolwg

**Ar 25 Ebrill 2022, daeth yr Aelodau i gyfarfod Panel Craffu Gwaredu y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys. Adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion o drais yn erbyn menywod a merched, yr ymdriniwyd â hwy drwy Waredu y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 16 o achosion, gydag 8 yn cynnwys pobl ifanc y drwgdybir ac 8 yn cynnwys oedolion.**

**Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy Microsoft Teams.**

## 1. Cefndir, pwrpas a methodoleg

**Gyda'i gilydd, mae Aelodau'r Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna bydd y Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosibl, dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwaredu. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

**•Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.**

**•Cydymffurfio â pholisi'r heddlu.**

**•Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.**

**•Effaith bosibl ar y gymuned.**

**•Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.**

**•Opsiynau amgen posibl a allai fod wedi bod ar gael.**

**Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:**

**•Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.**

**•Defnydd priodol gydag amheuon Aelodau'r Panel.**

**•Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.**

**•Panel yn methu â dod i gasgliad.**

## 1. Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

**Rydw i __D.L Evans__________ (argraffu enw) yn gallu cadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer samplu dip dyddiedig 25 Ebrill 2022.**

**Llofnodwyd:** ___David Evans___________

**Dyddiad:** __01/08/2022________

## 1. Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol o'r panel

**O ganlyniad i waith y Panel Craffu Gwaredu y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:**

- **O ganlyniad i drafodaethau yn y cyfarfod diwethaf, mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid a'r heddlu wedi cyfarfod i adolygu achosion lle'r oedd anghysondebau o ran sgoriau matrics disgyrchiant wedi'u nodi. Mae materion wedi'u nodi ac maent bellach yn cael sylw.**
- **Mae achos 4 o'r cyfarfod diwethaf wedi'i adolygu gan yr heddlu a chanfuwyd bod yr achos wedi mynd drwy'r biwro a'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Roedd yr heddlu'n fodlon y byddai'r plentyn yn dal i gael y lefel o gymorth ac ymyrraeth y byddent yn disgwyl mynd i'r afael â'i ymddygiad a'i droseddu er bod yr ymdriniwyd â'r achos gyda Phenderfyniad Cymunedol Ieuenctid.**
- **Mae adborth wedi'i roi i'r heddlu fel nodyn i atgoffa y dylid anfon pob achos o drosedd casineb i Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad ynghylch cyhuddo yn unol â'r polisi.**

## 1. Arfer da

**Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Nododd y Panel yn achos 1 fod y swyddog yn yr achos wedi rhoi cyngor diogelu i'r dioddefwr a bod hyn wedi'i gofnodi yn y dogfennau. Teimlai'r Panel fod hwn yn arfer da iawn ac y dylid ei rannu.**
- **Cafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau'r Panel mewn perthynas â'r ffordd y mae Panel PCGTALI Dyfed-Powys yn rhedeg a'r dogfennau y mae'r Panel yn eu derbyn.**

## 6.0 Meysydd ar gyfer gwelliant

**Nodwyd y maes canlynol i'w wella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Canfuwyd nad oedd digon o fanylion wedi'u cynnwys yn y ffeil achos ar gyfer dau o'r achosion Ieuenctid er mwyn i'r Panel wneud penderfyniad gwybodus ar briodoldeb y canlyniad. Canfuwyd bod rhai o'r adroddiadau Tîm Troseddau Ieuenctid ar goll ac felly nid oedd gwybodaeth allweddol yn hysbys.**

## 7.0 Ystyried achosion o drais yn erbyn menywod a merched – pobl ifanc a ddrwgdybir

**Ystyriwyd wyth achos (ieuenctid) o drais yn erbyn menywod a merched, ymdriniwyd â'r achosion drwy: un Rhybudd Ieuenctid, chwe Phenderfyniad Cymunedol Ieuenctid ac un Gwaredu Adferol Ieuenctid.**

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Priodol** | **5** |
| **Priodol gydag amheuon** | **2** |
| **Panel yn methu â dod i gasgliad** | **1** |

**Manylir ar sylwadau Aelodau'r Panel isod.**

**Achos 1**

**Roedd yr achos hwn yn ymwneud â'r sawl a ddrwgdybir o wthio a dyrnu'r dioddefwr gan achosi cleisio. Nododd yr Aelodau'n gadarnhaol fod y swyddog yn yr achos wedi rhoi cyngor ar ddiogelu'r dioddefwr a thynnwyd sylw at hyn fel arfer da. Teimlai'r Panel fod canlyniad Rhybudd Ieuenctid yn gyson â pholisi ac yn briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

**Roedd y sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn wedi anfon bygythiadau o drais rhywiol a lladd drwy WhatsApp i'r dioddefwr. Roedd gan y Panel rai amheuon ynghylch canlyniad Penderfyniad Cymunedol Ieuenctid. Er mai dim ond 13 oed oedd yr unigolyn, roedd yr Aelodau'n teimlo eu bod wedi dangos patrwm o ymddygiad cynyddol. Teimlwyd bod yr achos hwn yn ddifrifol oherwydd y bygythiadau i ladd a'r unigolyn heb gynnig unrhyw ymddiheuriad. Nodwyd hefyd fod yr unigolyn wedi derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid blaenorol. Gan nad oedd y ffeil achos yn cynnwys asesiad y Tîm Troseddau Ieuenctid, nid oedd y Panel yn gallu asesu priodoldeb y canlyniad yn llawn.**

**Asesiad y Panel: Priodol gydag Amheuon**

**Achos 3**

**Rhoddwyd Penderfyniad Cymunedol Ieuenctid i'r sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn am wthio'r dioddefwr. Teimlai'r Panel nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr achos ac felly methodd â dod i gasgliad ynghylch a ymdriniwyd â'r achos hwn yn**

**briodol. Nodwyd bod bylchau yn y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas ag agweddau ymosodiadau a difrod troseddol yr achos ac nid oedd unrhyw wybodaeth bellach wedi'i nodi mewn perthynas â'u troseddau blaenorol. Roedd y Panel hefyd yn teimlo'n bryderus na chafodd yr unigolyn unrhyw ymyriad oherwydd y digwyddodd yr achos yn ystod y pandemig. Teimlai'r Panel fod angen cymorth ar yr unigolyn am eu hymddygiad cynyddol.**

**Asesiad y Panel: Y Panel yn methu â dod i gasgliad**

**Achos 4**

**Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r camau a gymerwyd wrth ymchwilio i'r achos hwn. Rhoddwyd Penderfyniad Cymunedol Ieuenctid i'r sawl a ddrwgdybir am daro eu mam ac achosi niwed i'w tŷ. Dim ond 11 oed oedd yr unigolyn yn yr achos hwn, roedd wedi cyfaddef i'r drosedd ac nid oedd ei fam am fynd â'r gŵyn ymhellach. Teimlai'r Panel fod hon yn ffeil achos drylwyr a manwl iawn a'i bod wedi dilyn polisi.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

**Roedd yr achos hwn yn ymwneud â'r sawl a ddrwgdybir yn dyrnu cyd-ddisgybl yn yr ysgol gan achosi cochni. Teimlai'r Aelodau fod Penderfyniad Cymunedol Ieuenctid yn briodol a'i bod yn gadarnhaol nodi bod gan y sawl a ddrwgdybir agwedd gadarnhaol tuag at eu cynllun ymyrraeth. Roedd yr Aelodau hefyd am dynnu sylw at y ffaith mai ffeil achos drylwyr a manwl oedd hon.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

**Roedd y sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn wedi gwthio'r dioddefwr i gadair gan achosi cleisiau a chafodd Benderfyniad Cymunedol Ieuenctid. Nododd yr Aelodau unwaith eto fod hon yn ffeil achos drylwyr gydag asesiad manwl gan y Biwro a chynllun ymyrraeth. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw bryderon mewn perthynas â'r achos hwn ac roeddent yn teimlo ei fod yn gyson â pholisi.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

**Teimlai'r Aelodau fod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Benderfyniad Cymunedol Ieuenctid. Roedd y person dan amheuaeth yn yr achos hwn wedi slapio a**

**thynnu gwallt y dioddefwr. Nid oedd gan y Panel unrhyw broblem gyda'r canlyniad; fodd bynnag, nodwyd nad oedd cyfeiriad at ymdrin â'r agwedd ar Droseddau Casineb ac nid oedd adroddiad asesu Tîm Troseddau Ieuenctid ar gael. Nododd y Panel hefyd fod y drosedd hon yn debyg iawn i achos 1, ond yn wahanol i'r achos hwnnw, ni roddwyd unrhyw gyngor diogelu i'r dioddefwr hwn a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 8**

**Roedd hyn yn ymwneud â'r sawl a ddrwgdybir yn dyrnu a thynnu gwallt y dioddefwr gan achosi chwyddo i ardal y geg. Roedd gan yr Aelodau amheuon ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â'r achos drwy Waredu Adferol Ieuenctid oherwydd yr anafiadau a achoswyd i'r dioddefwr. Roedd yr Aelodau o'r farn, o'i gymharu â rhai o'r achosion blaenorol lle rhoddwyd Penderfyniad Cymunedol Ieuenctid, y gellid bod wedi dwysáu'r achos hwn. Fodd bynnag, nodwyd bod yr unigolyn yn ymgysylltu'n dda â chymorth yn gadarnhaol.**

**Asesiad y Panel: Priodol gydag Amheuon**

## 8.0 Ystyriaeth o drais yn erbyn menywod a merched – oedolion a ddrwgdybir

**Adolygodd Aelodau'r Panel wyth achos. Ymdriniwyd â thri ar ffurf Rhybudd, un drwy Rybudd Amodol a phedwar drwy Benderfyniad Cymunedol.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 6 |
| Amhriodol | 2 |

**Mae sylwadau Aelodau'r Panel ar bob achos i'w gweld isod:**

**Achos 9**

**Rhoddwyd Rhybudd i'r sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn am ymosod a bygwth lladd y dioddefwr. Roedd y sawl a ddrwgdybir yn 86 oed ac yn anaddas i'w gadw yn y ddalfa. Nodwyd bod gan y sawl a ddrwgdybir bryderon iechyd meddwl ac nad oedd y dioddefwr am wneud cwyn. Er bod y Panel o'r farn bod y canlyniad hwn yn briodol oherwydd oedran y person dan amheuaeth. Nodwyd pa mor agored i niwed oedd y dioddefwr, gan mai digwyddiad cam-drin domestig oedd hwn, roedd gan y sawl a ddrwgdybir hanes o droseddau ac nid oedd unrhyw amddiffyniad pellach i'r dioddefwr. Canfuwyd bod asiantaethau cymorth wedi'u gweld a'u bod wedi ceisio rhoi cymorth.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

**Rhoddwyd Rhybudd i'r sawl a ddrwgdybir am ymddygiad gorfodi a rheoli tuag at eu partner. Oherwydd i'r dioddefwr dynnu'r gŵyn yn ôl, teimlai'r Panel fod y canlyniad hwn yn briodol. Nodwyd bod yr heddlu wedi gwneud popeth o fewn eu gallu a bod sail resymegol drylwyr dros y penderfyniad yn cael ei chofnodi.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

**Roedd yr Aelodau'n fodlon â chanlyniad Rhybudd yn ymwneud â digwyddiad lle'r oedd y sawl a ddrwgdybir wedi difrodi cartref y dioddefwyr ac wedi bygwth eu lladd. Teimlai'r Panel fod Rhybudd yn briodol i lefel y drosedd. Nodwyd y byddai cyfeirio at wasanaeth cymorth alcohol wedi bod yn fuddiol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

**Roedd y dioddefwr yn yr achos hwn wedi derbyn sawl neges ddiangen dros y blynyddoedd ac, yn ddiweddar, lun o ble roeddent yn byw. Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn ac ers hynny nid oedd wedi cydymffurfio â'r cynllun dargyfeiriol. Nid oedd y Panel yn fodlon â'r canlyniad hwn ac roedd yn teimlo, oherwydd difrifoldeb y drosedd, y dylid bod wedi mynd â'r achos hwn i'r llys. Teimlwyd bod y dioddefwr hwn yn agored iawn i niwed.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 13**

**Teimlai'r Aelodau fod canlyniad Penderfyniad Cymunedol yn briodol ar gyfer yr achos hwn lle'r oedd y sawl a ddrwgdybir wedi tynnu gwallt y dioddefwr a'i dyrnu gan achosi cochni i'r wyneb. Roedd y sawl a ddrwgdybir wedi ymddiheuro a theimlwyd bod y canlyniad hwn yn unol â pholisi.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

**Roedd y sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn wedi taro'r dioddefwr yn eu pen gan achosi dim anafiadau gweladwy ac fe gafodd ganlyniad Penderfyniad Cymunedol. Teimlai Aelodau'r Panel, er bod yr achos hwn yn debyg i achos 14 o ran trosedd, fod rhai amheuon oherwydd bod y sawl a ddrwgdybir wedi ymosod ar swyddog yn ystod y broses arestio. Nid oedd y sawl a ddrwgdybir wedi edifarhau na chydnabod yr ymosodiad na'r drosedd.**

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 15**

**Rhoddwyd Penderfyniad Cymunedol i'r sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn am fygwth treisio'r dioddefwr drwy ffonio ei busnes gwaith. Teimlai'r Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol ac y dylid bod wedi'i ddwysáu. Teimlwyd nad oedd y sawl a ddrwgdybir wedi rhoi ymddiheuriad derbyniol ac nad oedd wedi cydnabod y drosedd,**

**gan ddangos dim edifeirwch. Teimlai'r Panel y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwyn i'r llys oherwydd natur fregus ac ofn y dioddefwr.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**


**Achos 16**

**Rhoddwyd Penderfyniad Cymunedol i'r sawl a ddrwgdybir yn yr achos hwn am daro pen y dioddefwr yn erbyn y llawr ac achosi cleisiau. Nododd y Panel, er bod gan yr unigolyn hwn hanes a bod hyn yn drosedd ddifrifol, roedd tystiolaeth yn yr achos bod hwn yn ymosodiad wedi’i ysgogi. Teimlai'r Panel felly fod y canlyniad hwn yn briodol. Nodwyd hefyd fod yr unigolyn yn ymgysylltu'n dda â'r cynllun dargyfeiriol.**


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 9.0 Asesiadau'r Panel hyd yma

**Mae'r siart isod yn dangos asesiad y Panel o'r achosion o drais yn erbyn menywod a merched a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:**




**Ers mis Tachwedd 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.**





**O'r 476 o achosion a archwiliwyd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Ebrill 2022, aseswyd bod 57% yn briodol, 20% yn amhriodol, 21% yn briodol gydag amheuon a methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2% o achosion.**


**Mae'r newid mewn casgliadau a gyrhaeddwyd dros amser i'w weld yn y graff isod:**




**Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ebrill 2022.**





**Mae'r graff canlynol yn dangos nifer wirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel dilynol yn eu cyfarfodydd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ebrill 2022.**



## 10.0 Ethnigrwydd a Rhywedd

**Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran eu rhywedd:**




**Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.**

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Sawl a Ddrwgdybir<br>Hunanasesu | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 14 | 0 |
| Gwyn - Gogledd Ewrop | 0 | 15 |
| Heb ei nodi | 2 | 1 |

**Nodwyd, lle'r oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi, fod pob un o'r personau a ddrwgdybir wedi'u nodi fel Gwyn - Prydeinig ond nododd swyddogion eu bod yn Wyn - Gogledd Ewrop. Gofynnwyd eto a oedd y meysydd hyn yn cael eu cofnodi'n gywir.**

**Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb hiliol na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.**

## 11.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Panel yr hoffent ganolbwyntio ar achosion cyfathrebu maleisus ac aflonyddu.**

**<u>Cam Gweithredu 1:</u>Teimlwyd y dylai'r CHTh godi ymwybyddiaeth y Panel PCGTALl i Ynadon a chodi proffil gwaith y Panel ar lefel Cymru gyfan.**

**<u>Cam Gweithredu 2:</u>I rannu'r adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r swyddog sy'n rhoi cyngor diogelu i'r dioddefwr.**

**<u>Cam Gweithredu 3:</u>Tîm Troseddau Ieuenctid i gysylltu â'u timau i sicrhau bod yr holl ddogfennau Tîm Troseddau Ieuenctid sydd ar gael yn cael eu hychwanegu at ffeiliau achos PCGTALl.**